

arts award

# Canllaw i Arts Award

TRINITY COLLEGE LONDON

ARTS COUNCIL ENGLAND

## Beth yw Arts Award?

Set o gymwysterau unigryw yw Arts Award. Mae'r cymwysterau hyn yn cynorthwyo plant a phobl ifanc 25 oed ac iau i fwynhau'r celfyddydau a datblygu fel artistiaid ac arweinwyr celfyddydau.

Mae pedwar cymhwyster a lefel ragarweiniol ar gael, ac maent yn addas i bob oed a gallu. Mae pwyntiau UCAS gwerthfawr hefyd yn gysylltiedig â'r lefel uchaf.

Mae ymchwil annibynnol* wedi dangos bod Arts Award yn datblygu:

- Sgiliau bywyd, gan gynnwys sgiliau cyfathrebu, arwain a threfnu
- Ffordd fyfyriol o feddwl a metawybyddiaeth
- Diddordeb mewn gyrfaoedd celfyddydol
- Sgiliau entrepreneuraidd
- Sgiliau artistig a gallu creadigol gydol oes

> "Mae Arts Award mor fuddiol ac mae'n eich galluogi i ddatblygu eich sgiliau mewn sawl ffordd. Mae'n gymhwyster gwych i'w gael ac yn rhywbeth unigryw iawn i'w gael ar eich CV."
>
> – Jayden, Cyflawnwr Arts Award Aur

* Prifysgol South Bank Llundain, 2016 artsaward.org.uk/impactstudy

## Ble i ddechrau?

Edrychwch beth sydd dan sylw ar bob lefel o'r Arts Award, neu rhowch gynnig ar ein cwis ar-lein i ganfod y pwynt cychwyn gorau i'ch grŵp chi: artsaward.org.uk/levels

### Darganfod

20 awr o ddysgu dan arweiniad (argymelledig). Wedi'i chynllunio ar gyfer plant 5 oed a hŷn, ond ar agor i unrhyw un 25 oed ac iau

Dechreuwch ar antur gelfyddydol! I ennill Gwobr Darganfod Arts Award, rhaid i bobl ifanc:

- gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol
- cael profiad o waith artistiaid neu grefftwyr
- rhannu eu canfyddiadau celfyddydol

Am ragor o wybodaeth, ewch i: artsaward.org.uk/discover

### Archwilio

(Rhif cymhwyster 600/3894/9) | Lefel Mynediad (Mynediad 3) ar y RQF*

25 awr o ddysgu dan arweiniad + 10 awr o ddysgu annibynnol = 35 awr cyfanswm amser y cymhwyster. Wedi'i chynllunio ar gyfer plant 7 oed a hŷn, ond ar agor i unrhyw un 25 oed ac iaur

Archwiliwch y celfyddydau a chael eich ysbrydoli! I ennill Gwobr Archwilio Arts Award, rhaid i bobl ifanc:

- gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau celfyddydol
- archwilio gwaith artistiaid neu grefftwyr a sefydliadau celfyddydol
- creu gwaith celf
- rhannu eu harchwiliad

Am ragor o wybodaeth, ewch i: artsaward.org.uk/explore

* RQF = Y Fframwaith Cymwysterau Rheoledig

## Efydd

(Rhif cymhwyster 501/0081/6) | Lefel 1 ar y RQF*

40 awr o ddysgu dan arweiniad + 20 awr o ddysgu annibynnol = 60 awr cyfanswm amser y cymhwyster. Wedi'i chynllunio ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 14 oed, ond ar gael i unrhyw un rhwng 11 a 25 oed

Cymerwch ran yn y celfyddydau a rhannwch sgiliau newydd! I ennill Gwobr Efydd Arts Award, rhaid i bobl ifanc:

- gymryd rhan yn y celfyddydau
- adolygu digwyddiad neu brofiad celfyddydol
- ymchwilio artist neu grefftwr
- trosglwyddo sgiliau celfyddydol i eraill

Am ragor o wybodaeth, ewch i: artsaward.org.uk/bronze

## Arian

(Rhif cymhwyster 500/9914/0) | Lefel 2 ar y RQF*

60 awr o ddysgu dan arweiniad + 35 awr o ddysgu annibynnol = 95 awr cyfanswm amser y cymhwyster. Wedi'i chynllunio ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 ac 16 oed, ond ar gael i unrhyw un rhwng 11 a 25 oed

Ymgymerwch â her a byddwch yn arweinydd i eraill! Mae dwy uned i wobr Arian Arts Award: ymarfer a llwybrau celfyddydol, ac arweinyddiaeth yn y celfyddydau

I ennill Gwobr Arian Arts Award, rhaid i bobl ifanc:

- gynllunio, cwblhau ac adolygu her gelfyddydol
- adolygu digwyddiadau celfyddydol a mynegi eu barn
- ymchwilio i yrfaoedd yn y celfyddydau
- datblygu sgiliau arwain drwy gynllunio, cyflawni ac adolygu prosiect celfyddydol

Am ragor o wybodaeth, ewch i: artsaward.org.uk/silver

* RQF = Regulated Qualifications Framework

## Aur

(Rhif cymhwyster 500/9666/7) | Lefel 3 ar y RQF* | 16 pwynt UCAS

90 awr o ddysgu dan arweiniad + 60 awr o ddysgu annibynnol = 150 awr cyfanswm amser y cymhwyster. Wedi'i chynllunio ar gyfer pobl ifanc 16 oed a hŷn, ond ar gael i unrhyw un rhwng 11 a 25 oed

Datblygwch sgiliau celfyddydol ac arwain y ffordd! Mae dwy uned i wobr Aur Arts Award: datblygiad celfyddydau personol ac arwain prosiect celfyddydol

I gyflawni Gwobr Aur Arts Award, rhaid i bobl ifanc:

- ehangu eu hymarfer celfyddydol, cael profiad o ffurf arall ar gelfyddyd a chreu gwaith newydd
- cymryd rhan yn y byd celfyddydol drwy leoliadau gwaith, gwirfoddoli, hyfforddiant ac ymchwil
- adolygu digwyddiadau celfyddydol a dysgu mwy am artistiaid neu grefftwyr a'u llwybrau gyrfa
- ymchwilio i fater yn ymwneud â'r celfyddydau, a dadlau'r achos o'i blaid
- datblygu sgiliau arwain drwy gymryd cyfrifoldeb unigol am gynllunio, cyflawni ac adolygu prosiect celfyddydol a'i rannu'n gyhoeddus

Am ragor o wybodaeth, ewch i: artsaward.org.uk/gold



* RQF = Y Fframwaith Cymwysterau Rheoledig


# Sut mae Arts Award yn gweithio





I ddechrau cynnal Arts Award, bydd angen dewis lefel i'w chynnig yn gyntaf. Mae gwybodaeth am yr hyn sydd dan sylw ym mhob lefel ar gael ar wefan Arts Award, neu gallwch gysylltu â ni i gael cymorth i ddewis y pwynt cychwyn gorau i'ch grŵp chi.




Cwblhewch ein proses ddilysu ar-lein am ddim i ddod yn ganolfan Arts Award. Y canolfannau yw'r mannau sy'n cynnal Arts Award. Caiff unrhyw sefydliad sy'n cynnig prosiectau celfyddydol a diwylliannol i bobl ifanc fod yn ganolfan Arts Award.




Bydd angen i aelodau staff neu wirfoddolwyr a fydd yn helpu pobl ifanc i gyflawni eu cymhwyster hyfforddi i ddod yn gynghorwyr Arts Award. Mae ein cyrsiau ar-lein yn gyfleus a gallwch archebu lle arnynt yn rhwydd ar ein gwefan. Mae hefyd yn bosib trefnu hyfforddiant i grwpiau am bris gostyngol.





Wedi i'r ganolfan gwblhau'r broses gofrestru, gallwch ddechrau ar eich rhaglen Arts Award! Wrth i bobl ifanc weithio drwy Arts Award, byddant yn casglu tystiolaeth o'r hyn maent wedi'i ddysgu mewn portffolio neu gofnod celfyddydol. Pan fydd y rhain yn gyflawn, bydd cynghorwyr yn eu hystyried yn erbyn meini prawf asesu ar gyfer bob lefel.

5



Os bydd angen help arnoch ar hyd y ffordd, mae adnoddau ar-lein, sesiynau cymorth a gweminarau am ddim, yn ogystal â chymorth i bobl ifanc, ar gael drwy Arts Award Voice. I gael help i osod cyllideb, ewch i'n tudalen 'costau', a chymerwch olwg ar y prisiau gostyngol arbennig sydd ar gael gyda phartneriaid Arts Award.


6



Wedi i'r portffolios gael eu hasesu, gallwch gofrestru pobl ifanc ar gyfer Arts Award. I wneud hyn, bydd angen cwblhau'r daenlen cofrestru a marciau ar gyfer pob un o'r bobl ifanc a'i chyflwyno ar Borth y Ganolfan er mwyn gallu cyhoeddi tystysgrifau*.

*Mae tystysgrifau digidol unigol ar gael ar gyfer pob lefel heblaw Gwobr Darganfod Arts Award, y rhoddir tystysgrif bapur am ei chyflawni.

7



Byddwn yn rhoi gwybod ichi os cewch eich dewis ar gyfer y broses safoni, lle bydd eich asesiadau'n cael eu dilysu (ond ni fydd angen hyn yn y mwyafrif o achosion, gan gynnwys ar gyfer Darganfod, lle nad oes proses safoni gan mai lefel ragarweiniol ydyw).

8



Wedi ichi gwblhau eich prosiect yn llwyddiannus, bydd hi'n amser dathlu llwyddiannau eich grŵp...a chynllunio eich rhaglen Arts Award nesaf!



## Rhagor o wybodaeth

Ar gyfer addysgwyr
artsaward.org.uk

Ar gyfer pobl ifanc
artsawardvoice.com

/ArtsAward    /ArtsAward

Rheolir Arts Award gan Trinity College Llundain ar y cyd ag Arts Council England.

Blaen: Ysgol Gynradd Woodcroft *llun* Ashley Bingham    Cefn: Ysgol Ganol Newminster *llun* Geoff Love